

## PECYN GWYBODAETH

## DEFNYDDWYR GWASANAETH



# TALIADAU UNIONGYRCHOL

## BETH YW TALIADAU UNIONGYRCHOL?

Taliad uniongyrchol yw lle mae'r Cyngor yn rhoi arian i unigolion sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol fel y gallant gyflogi cynorthwydd personol a/neu brynu eu gofal a'u cymorth eu hunain yn hytrach na dibynnu ar yr adran gwasanaethau cymdeithasol i drefnu hyn drostynt. Mae taliad uniongyrchol yn rhoi'r hyblygrwydd i unigolyn benderfynu sut a phryd y darperir eu gofal a'u cymorth.

## SUT MAE GWNEUD CAIS I DDERBYN TALIAD UNIONGYRCHOL?

Bydd angen i unigolyn gael ei asesu gan y gwasanaethau cymdeithasol i weld os oes ganddynt unrhyw anghenion gofal a chymorth nad ydynt yn cael eu diwallu. Os mai canlyniad yr asesiad yw eu bod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, wedyn mae'n rhaid ystyried taliad uniongyrchol ynghyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill fel y gallant ystyried pa opsiwn fyddai orau i ddiwallu eu hanghenon a'r canlyniadau a ddynodwyd.

## AR GYFER BETH Y GELLIR DEFNYDDIO TALIAD UNIONGYRCHOL?

Mae llawer o unigolion ym Mlaenau Gwent yn defnyddio eu taliad uniongyrchol i gyflogi Cynorthwydd personol (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth) -

- ✚ Cefnogi'r unigolyn i gael mynediad a magu hyder yn y gymuned
- ✚ Cefnogi'r unigolyn gyda bywyd a gweithgareddau bob dydd
- ✚ Cefnogi'r unigolyn i gael mynediad i addysg
- ✚ Cefnogi'r unigolyn gyda gofal personol
- ✚ Cefnogi'r unigolyn i ddatblygu eu sgiliau a galluoedd

A Gellir hefyd ddefnyddio taliad uniongyrchol i brynu gofal gan asiantaeth gofal gofrestredig, gofal preswyl tymor byr a thymor hir, gwyliau byr neu offer (heb fod yn gysylltiedig ag iechyd).

## CYFLOGI CYNORTHWYDD PERSONOL

Os yw unigolyn yn penderfynu defnyddio eu taliad uniongyrchol i gyflogi cynorthwydd personol, bydd gan yr **'Unigolyn'** holl gyfrifoldebau arferol **'Cyflogwr'**.

## CYFLOGI AELOD O'R TEULU

Mae'r penderfyniad p'un ai i ganiatáu cyflogi aelodau teulu yn 'benderfyniad unigol i'r Cyngor ac oherwydd y problemau sy'n aml yn codi fel canlyniad i gyflogi aelod o'r teulu, ni chaiff yr unigolyn ganiatâd i gyflogi aelod o'r teulu os nad yw'r Cyngor yn fodlon fod hynny yn 'angenrheidiol' a bod **'amgylchiadau eithriadol'**.

# TALIADAU UNIONGYRCHOL

Mae'r Cyngor yn credu y bydd y penderfyniad hwn yn diogelu buddiannau'r unigolyn a hefyd yr aelod o'r teulu ac yn eu galluogi i barhau i gynnal perthynas 'bersonol' iach a fyddai fel arall yn dod yn un o 'gontract'.

Hefyd ni fwriedir i daliadau uniongyrchol fod ac ni ddylent byth gael eu hystyried fel ffordd o dalu i ofalwyr teulu 'di-dâl'. Efallai y gall aelodau teulu sy'n dewis darparu gofal fedru hawlio lwfans gofalwr.

## **FAINT O ARIAN YW'R TALIAD UNIONGYRCHOL?**

Bydd faint o arian y bydd unigolyn yn ei dderbyn yn dibynnu ar yr anghenion gofal a chymorth a aseswyd ar eu cyfer a faint o arian sydd ei angen i gyllido yr anghenion na chaiff eu diwallu. Caiff hyn ei drafod ar ôl cwblhau'r asesiad integredig.

## **BETH MAE RHEOLI TALIAD UNIONGYRCHOL YN EI OLYGU?**

Mae'r tîm taliadau uniongyrchol ar gael i roi help a chefnogaeth beth bynnag mae'r unigolyn yn penderfynu defnyddio eu taliad uniongyrchol ar ei gyfer.

## **RÔL Y TÎM TALIADAU UNIONGYRCHOL**

Os yw'r unigolyn yn penderfynu mai taliad uniongyrchol yw'r dewis gorau iddynt ac y byddent yn hoffi cyflogi cynorthwydd personol (gallent hyd yn oed fod â rhywun mewn golwg) gall y tîm taliadau uniongyrchol gefnogi gyda: -

- Recriwtio cynorthwywyr personol
- Cyflwyno i gyfrifydd/gwasanaethau cyflogres
- Contract cyflogaeth
- DBS
- Cefnogaeth i reoli'r gwaith papur nes bydd yr unigolyn yn teimlo y gallant wneud hyn eu hunain
- Yswiriant Atebolrwydd Cyflogaeth Cartref
- ac yn y blaen.

## **AMGYLCHIADAU PAN EFALLAI NAD YW TALIAD UNIONGYRCHOL YN ADDAS**

Efallai nad yw taliad uniongyrchol yn addas os yw unigolyn: -

- ✚ Yn anghysurus yn cymryd cyfrifoldeb rôl cyflogwr
- ✚ Yn treulio cyfnodau cyson/hir mewn ysbyty
- ✚ Dim eisiau trefnu'r gwasanaethau ei hun

# TALIADAU UNIONGYRCHOL



Yn hoffi cefnogaeth yn y ffordd draddodiadol h.y. gofalwyr yn galw 4 gwaith y dydd (ymweliadau 15 munud/30 munud), 7 diwrnod yr wythnos gan y gall fod yn anodd recriwtio a chadw cynorthwywyr personol.

## TERFYNU TALIAD UNIONGYRCHOL

Mae gan y Cyngor yr hawl i derfynu taliad uniongyrchol oherwydd: (Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth)

- Marwolaeth unigolyn
- Newid amgylchiadau
- Newid yn dilyn adolygiad
- Y taliad uniongyrchol dim yn cael ei drin mewn modd priodol
- Yr unigolyn ddim yn dymuno parhau gyda'r taliad uniongyrchol
- Yr unigolyn yn methu rheoli'r taliad uniongyrchol (hyd yn oed gyda chefnogaeth)
- Ac yn y blaen.

## A FYDD TALIADAU UNIONGYRCHOL YN EFFEITHIO AR FUDD DALIADAU UNIGOLYN?

Ni fydd taliadau uniongyrchol yn effeithio ar fudd-daliadau unigolyn gan na chaiff ei gyfrif fel incwm ar gyfer dibenion treth. Fodd bynnag, gall effeithio ar eu budd-daliadau os yw'r cynorthwydd personol yn derbyn budd-daliadau. Cyfrifoldeb y cynorthwydd personol yw hysbysu'r asiantaeth fudd-daliadau perthnasol fod eu hamgylchiadau wedi newid a'u bod yn awr yn cael eu cyflogi.

## A FYDD YN RHAI'D I'R UNIGOLYN WNEUD CYFRANIAD ARIANNOL?

Os yw'r taliad uniongyrchol ar gyfer plentyn, ni chodir tâl am y gwasanaeth fodd bynnag os yw'r taliad unigolyn ar gyfer oedolyn, bydd angen i'r unigolyn gael asesiad ariannol i benderfynu os dylent gyfrannu at gost eu taliad uniongyrchol ac os felly faint fydd y cyfraniad hwnnw.

### **MANYLION CYSWLLT TIM TALIADAU UNIONGYRCHOL**

Andrea James	Rheolwr Taliadau Uniongyrchol a Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol
Denise Williams	Swyddog Taliadau Uniongyrchol
Julian Pryce-Hughes	Swyddog Taliadau Uniongyrchol
Julie Durham	Swyddog Taliadau Uniongyrchol
Telephone:	01495 355265
Email:	DirectPayments@blaenau-gwent.gov.uk
Address:	Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Llys Einion, Abertyleri. NP13 1DB



## EMPLOYER TOOLKIT FOR SUPPORTING THE LEARNING OF PERSONAL ASSISTANTS

### Who is this for?

This toolkit will be useful if you receive direct payments and employ Personal Assistants or are considering employing Personal Assistants.

### What is it?

It is a resource providing useful information, guidance, examples and practical tools to help you support your Personal Assistants to gain the skills they need to be confident and competent in their role.

### What information?

It includes information and resources on a number of topics:

- The benefits of learning and training for your Personal Assistants and you
- Preparing to employ the right Personal Assistants
- Introducing your Personal Assistants to their new role
- Ongoing learning and development
- Training and qualifications
- How to meet your Personal Assistants' learning and training needs.

To access the toolkit visit  
[www.paemployertoolkit.wales](http://www.paemployertoolkit.wales) or contact  
[mared.llwyd@ccwales.org.uk](mailto:mared.llwyd@ccwales.org.uk) or 029 2078 0638



## PECYN CYFLOGWYR AR GYFER CEFNOGI DYSGU CYNORTHWYWYR PERSONOL

### Ar gyfer pwy mae hwn?

Bydd y pecyn hwn yn ddefnyddiol os ydych yn derbyn taliadau uniongyrchol ac yn cyflogi Cynorthwywyr Personol neu'n ystyried cyflogi Cynorthwywyr Personol.

### Beth ydyw?

Adnodd sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol, arweiniad, enghreifftiau ac adnoddau ymarferol i'ch helpu i gefnogi eich Cynorthwywyr Personol i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn gymwys a hyderus yn ei rôl.

### Pa wybodaeth?

Mae'n cynnwys gwybodaeth ac adnoddau ar nifer o destunau:

- Manteision dysgu a hyfforddi i'ch Cynorthwywyr Personol a chi
- Paratoi i gyflogi'r Cynorthwywyr Personol cywir
- Cyflwyno eich Cynorthwywyr Personol i'w rôl newydd
- Dysgu a datblygu parhaus
- Hyfforddi a chymwysterau
- Sut i fodloni anghenion dysgu a hyfforddi eich Cynorthwywyr Personol.

Bydd ar gael ar [www.pecyncyflogwrcp.cymru](http://www.pecyncyflogwrcp.cymru)  
neu cysylltwch â [mared.llwyd@cgymru.org.uk](mailto:mared.llwyd@cgymru.org.uk) neu  
029 2078 0638